# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 11 Ionawr 2012** |
| Amser: | **09:45 - 11:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700004_11_01_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Lesley Griffiths, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Dr Gwyn Thomas, y Prif Swyddog Gwybodaeth, Welsh Government**<br>**Yr Athro Roger Walker, y Prif Swyddog Fferyllol, Welsh Government**<br>**Andrew Evans, Welsh Government** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn – trafod amserlen yr ymchwiliad a phenodi cynghorydd arbenigol

2.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod amserlen yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn a phenodi cynghorydd arbenigol.

2.2 Daeth y Pwyllgor i gytundeb ynghylch yr amserlen a chlustnodi themâu allweddol i aelodau unigol. Ni ddaeth y Pwyllgor i gytundeb ynghylch manyleb swydd y cynghorydd arbenigol, ac o’r herwydd, methodd ag enwebu ymgeisydd addas. Cytunodd yr aelodau i ddirprwyo gwaith pellach ynghylch manyleb swydd y cynghorydd arbenigol ac ymgeiswyr posibl i’r Cadeirydd.

## 3. Y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) – trafod y dull o ystyried y Bil drafft

3.1 Nododd y Pwyllgor gyhoeddi’r Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).

3.2 Bu’r Pwyllgor yn trafod y dull o ystyried y Bil drafft a chytunodd y dylai ofyn am wasanaeth briffio gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Cytunodd y Pwyllgor mai pwrpas y hyn fyddai er mwyn bod yn ymwybodol o ddatblygiadau gyda’r Bil drafft yn hytrach na mynegi barn am ei gynnwys.

## 4. Ymchwiliad i’r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru – tystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4.1 Bu’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a’i swyddogion yn ymateb i gwestiynau am y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu copi o’r papur a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn ar iechyd y cyhoedd ynghylch gwerthuso cynllun mân anhwylderau fferyllfeydd cymunedol yn ngogledd-ddwyrain Lloegr.

## 5. Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol, llythyron gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, a’r dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a gafwyd ynghylch y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.